Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Datganiad i'r wasg | Press release

Corff amrywiol o fyfyrwyr ym mhrifysgolion Cymru

Dydd Iau, 15 Ebrill 2010

Mae'r ffigurau diweddaraf am sector addysg uwch y DU yn dangos bod prifysgolion a cholegau yng Nghymru yn parhau i wneud yn dda wrth recriwtio myfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

Mae gan Gymru gyfrannau tebyg neu uwch o fyfyrwyr o'r mwyafrif o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch (AU) o'i chymharu â'r DU yn ei chyfanrwydd.

Mae'r dangosyddion perfformiad blynyddol yn dangos llwyddiant y sector AU yng Nghymru i ehangu mynediad ymysg grwpiau sydd yn draddodiadol wedi cael llai o brofiad o addysg uwch, yn enwedig israddedigion amser-llawn ifanc o ysgolion a cholegau'r wladwriaeth ac o gymdogaethau lle y mae cyfranogiad yn isel, ac israddedigion amser-llawn a oedd yn derbyn lwfans myfyrwyr anabl.

Ar gyfer 2008/09 yng Nghymru, tynnir sylw arbennig at y canlynol:

- Roedd 93.5% o israddedigion amser-llawn ifanc a gofrestrodd yn SAUau Cymru yn 2008/09 o ysgolion neu golegau'r wladwriaeth, cyfran debyg i'r llynedd sy'n fwy na honno ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd, sef 89%. Roedd gan chwe SAU gyfrannau a oedd yn sylweddol uwch na'r meincnod. (www.hesa.ac.uk/pi, Tabl 1b)

- Yn achos israddedigion amser-llawn ifanc a gofrestrodd yn SAUau Cymru yn 2008/09, roedd y gyfran a oedd yn dod o Ddosbarthiadau NS-SEC[1] 4, 5, 6 a 7, sef 33.0%, yn debyg i'r gyfran ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd, sef 33.1%. (Tabl 1b)

- Roedd y gyfran o israddedigion amser-llawn ifanc a gofrestrodd yn SAUau Cymru yn 2008/09 a oedd yn dod o gymdogaethau lle y mae cyfranogiad yn isel yn 10.4%: roedd hyn yn fwy na'r llynedd ac yn debyg i'r gyfran ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd, sef 10.5%. (Tabl 1b)

- Yn 2008/09 nid oedd gan 7.4% o israddedigion rhan-amser unrhyw brofiad blaenorol o AU ac roeddynt yn dod o gymdogaeth lle y mae cyfranogiad yn isel: roedd hyn yn fwy na'r llynedd ac yn debyg i'r gyfran ar gyfer y DU gyfan, sef 7.3%. (Tabl 2b)

- Mae'r gyfran o israddedigion amser-llawn yn SAUau Cymru sy'n derbyn Lwfans Myfyrwyr Anabl (LMA) yn 5.8% ac mae hyn yn parhau'n fwy na'r gyfran ar gyfer y DU gyfan, sef 4.7% yn 2008/09. Mae'r gyfran o israddedigion rhan-amser sy'n derbyn LMA wedi cynyddu ers y llynedd i 1.8%. Mae hyn yn is na'r gyfran ar gyfer y DU gyfan, sef 2.6%. (Tabl 7)

Roedd y ffigurau'n tynnu sylw eto eleni at yr her o gadw myfyrwyr anhraddodiadol mewn addysg uwch:

- Roedd y gyfran o fyfyrwyr gradd gyntaf amser-llawn yn SAUau Cymru yn 2007/08 nad oeddynt mewn AU yn 2008/09 yn 9.2%, gostyngiad ers y llynedd. Er bod hyn yn parhau'n uwch na'r gyfran ar gyfer y DU gyfan o 8.6%, mae'r bwlch rhwng Cymru a'r DU wedi lleihau ers 2007/08. (www.hesa.ac.uk/pi Tabl 3a)

[1] National Statistics Socio-Economic Classification http://www.ons.gov.uk/about-statistics/classifications/current/ns-sec/cats-and-classes/ns-sec-classes-and-collapses/index.html

- Roedd y gyfran o fyfyrwyr gradd gyntaf amser-llawn ifanc yn SAUau Cymru o gymdogaethau cyfranogiad-isel yn 2007/08 nad oeddynt mewn AU yn 2008/09 yn 11.0%, gostyngiad ers y llynedd, ac er bod hyn yn parhau'n uwch na'r gyfran ar gyfer y DU gyfan o 9.6%, mae'r bwlch rhwng Cymru a'r DU yn parhau i leihau. (Tabl 3b)

- Yn achos myfyrwyr gradd gyntaf amser-llawn aeddfed a gofrestrodd yn SAUau Cymru yn 2007/08 heb unrhyw gymhwyster AU blaenorol, roedd y gyfran o fyfyrwyr nad oeddynt mewn AU yn 2008/09 yn 15.9%, sy'n llai na'r llynedd, ac er ei bod yn parhau'n uwch na'r gyfran ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd, sef 14.6%, mae'r bwlch rhwng Cymru a'r DU wedi lleihau ers 2007/08. Yn achos myfyrwyr yr oedd ganddynt gymhwyster AU blaenorol, nid oedd 11.6% mewn AU bellach, sy'n llai na'r gyfran ar gyfer y DU gyfan o 12.4%. (Tabl 3c)

- Roedd y gyfran o fyfyrwyr gradd gyntaf rhan-amser yn SAUau Cymru yn 2006/07 nad oeddynt mewn AU yn 2008/09 yn 30.1% o'i chymharu â 35.3% ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd. Roedd y ffigur ar gyfer myfyrwyr 30 oed a thanodd, sef 29.9%, yn debyg i'r ffigur ar gyfer myfyrwyr dros 30 oed, sef 30.1%. Roedd y gyfran o fyfyrwyr 30 oed a thanodd ar gyfer y DU gyfan yn 36.9%, a oedd yn fwy na'r gyfran ar gyfer myfyrwyr dros 30 oed, sef 33.9%. (Tabl 3e)

Meddai'r Athro Philip Gummett, Prif Weithredwr CCAUC: "Mae'r ffigurau'n tanlinellu ymrwymiad Cymru i gynnig cyfleoedd i'r rheiny all elwa ar addysg uwch, ac yn dangos sut mae cyflawniadau ein prifysgolion yn helpu i hyrwyddo agenda cyfiawnder cymdeithasol Llywodraeth y Cynulliad.

"Allwn ni ddim gorbwysleisio'r gwaith mae sefydliadau Cymru'n ei wneud i godi dyheadau a chreu llwybrau newydd i addysg uwch, ac rydyn ni'n eu canmol am eu llwyddiant wrth recriwtio myfyrwyr anabl, myfyrwyr o gymdogaethau lle mae cyfranogiad yn isel, a myfyrwyr aeddfed.

“Rydyn ni’n cydnabod bod cadw myfyrwyr anhraddodiadol yn gallu bod yn fwy heriol weithiau, ac rydyn ni’n ffyddiog y bydd ein prifysgolion, gyda mwy o gymorth, arbenigedd a dewrder, yn gwneud cynnydd yn y maes hwn. Calondid mawr i ni yw bod pob sefydliad AU yng Nghymru bellach wedi ennill Nod Ansawdd Ymddiriedolaeth Frank Buttle ar gyfer Ymadawyr Gofal, sy’n cydnabod ymrwymiad prifysgolion i ddarparu cymorth a chyllid ychwanegol i bobl o bob oedran sy’n dod o gefndir gofal.”

Diwedd

Nodiadau:

I gael rhagor o wybodaeth, cysyllter â:
CCAUC: Emma Raczka, Rheolwr Cyfathrebu, 029 2068 2225
emma.raczka@hefcw.ac.uk

Dangosyddion Perfformiad

Ceir testun a thablau llawn ‘Performance Indicators in Higher Education in the UK 2008/09’ ar wefan yr AYAU yn www.hesa.ac.uk/pi. Ceir cyfeiriadau yn y testun uchod at y tablau.

Cyhoeddir y Dangosyddion Perfformiad gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (AYAU) ar ran pedwar corff cyllido addysg uwch y DU: Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr, Cynghorau Cyllido’r Alban, ac Adran Cyflogaeth a Dysgu Gogledd Iwerddon.

Caiff dangosyddion ymchwil a chyflogaeth eu cyhoeddi ym mis Gorffennaf, felly nid ydynt wedi’u cynnwys yn y crynodeb hwn.

Mae newidiadau i’r cwestiwn UCAS ynghylch NS-SEC a ofynnwyd i ymgeiswyr yn 2008/09 yn golygu nad yw’n briodol cymharu’r data hyn â data blynyddoedd cynharach, felly mae dangosyddion perfformiad ar gyfranogiad myfyrwyr o ddosbarthiadau 4, 5, 6 a 7 wedi cael eu cyhoeddi ar wahân yn 2008/09 yn nhablau

1ai, 1bi ac 1ci. http://www.hesa.ac.uk/pis/08/09/changes

Ar gyfer myfyrwyr gradd gyntaf rhan-amser, mae gwybodaeth am fyfyrwyr nad ydynt yn parhau ar eu cwrs ddwy flynedd wedi'r flwyddyn gofrestru wedi cael ei chyhoeddi am y tro cyntaf yn 2008/09 yn nhabl 3e.

O ganlyniad i gyflwyno'r cofnod myfyrwyr AYAU newydd yn 2007/08, nid oedd ansawdd peth o'r data mor uchel yn y flwyddyn honno ag yn y gorffennol. Mae'r ansawdd wedi gwella yn 2008/09 ond dylid rhoi ystyriaeth i faterion ansawdd data ar gyfer 2007/08 wrth wneud cymariaethau â dangosyddion perfformiad blynyddoedd blaenorol.

Ni chynhwysir yr Alban yn ffigurau'r DU ar gyfer y tablau a ganlyn:
T1a, T1b, T1c (ffigurau cymdogaethau cyfranogiad-isel yn unig)
T2a, T2b, T2c
T3b

Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru** (CCAUC). Mae'n gyfrifol am weinyddu'r cyllid a roir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynnal:

- addysg mewn sefydliadau addysg uwch (SAUau);
- ymchwil a wneir gan SAUau; a
- chyrsiau addysg uwch mewn colegau addysg bellach.

Mae CCAUC hefyd yn gyfrifol am achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon ar gyfer athrawon ysgol ac am gomisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon.

Yn ogystal â'i gyfrifoldebau cyllido, mae CCAUC yn cynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ar anghenion ariannol, dyheadau a phryderon y sector addysg uwch yng Nghymru.